# Pecyn Dogfen Cyhoeddus


Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

**Ffon | Tel:** 01352 810614 | **Ffacs | Fax:** 01352 810644
**E-bost | E-mail:** clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk
**Gwefan:** www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/
**Web:** www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/

www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB
@Clwyd_Dee_AONB


| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | Dyddiad: | Dydd Gwener, 10 Mawrth 2023 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | Ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 17 Mawrth 2023** am **10.00 am** yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**

**2 COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y CYDBWYLLGOR BLAENOROL (HS)** (Tudalennau 5 - 8)

Ystyried cofnodion (copi ynghlwm) cyfarfod blaenorol Cydbwyllgor AHNE a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022.

**3 COFNODION DRAFFT PARTNERIAETH AHNE (HS)** (Tudalennau 9 - 14)

Nodi cofnodion cyfarfod Partneriaeth AHNE a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2022.

**4 COFNODION DRAFFT EIN PARTNERIAETH TIRLUN DENIADOL (DS)** (Tudalennau 15 - 20)

Nodi cofnodion drafft ein Partneriaeth Tirlun Deniadol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023.

**5 ADOLYGIAD 10 MLYNEDD A DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU AHNE 2023 AR LAFAR (HS)**

Derbyn diweddariad ar lafar gan Swyddog a Rheolwr Gwasanaeth Ceidwad AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

**6 ADRODDIAD ARIANNOL BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG)(SG A PO'H)** (Tudalennau 21 - 24)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo ac Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd.

**7 DIWEDDARIAD PARC CENEDLAETHOL AR GYFER GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU (CNC)**

Derbyn diweddariad gan gynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (EITEM SEFYDLOG)** (Tudalennau 25 - 30)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol (copi ynghlwm) gan y Swyddog AHNE.

**9 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Er gwybodaeth, dyddiadau cyfarfodydd nesaf Cydbwyllgor AHNE yw:

- 23 Mehefin 2023 (CBSW) ac
- 17 Tachwedd 2023 (CSFf)

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

David Healey (CSFf)
Dave Hughes (CSFf)
Hugh Jones (CBSW)
Win Mullen-James (CSDd)
Nigel Williams (CBSW)
Emrys Wynne (CSDd)

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**COFNODION CYFARFOD CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY A GYNHALIWYD DYDD IAU, 10 TACHWEDD 2022**

**AELODAU'R CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL A OEDD YN BRESENNOL**
Y Cynghorwyr: Win Mullin-James (Cyngor Sir Ddinbych); Y Cynghorwyr Dave Hughes a David Healey (Cyngor Sir y Fflint); Y Cynghorwyr Nigel Williams a Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**HEFYD YN BRESENNOL**
Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo Cyngor Sir Ddinbych), Mike Bather (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ceri Lloyd (Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE), Paula O'Hanlon (Uwch Swyddog Cyllid, Cyngor Sir Ddinbych), Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru), Huw Rees (Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth, Cyngor Sir Ddinbych), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE), Karen Weaver (Cydlynydd AHNE), Andrew Worthington, (Cadeirydd y Bartneriaeth AHNE), Tom Woodall (Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol a Mynediad Cyngor Sir y Fflint), a Paul Rowlinson (Cyfieithydd)

Roedd y Cynghorwyr Gareth Sandilands a Bobby Feeley (Cyngor Sir Ddinbych) yn bresennol fel arsylwyr.

**1. CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Aelod y Cyd-bwyllgor Emrys Wynne (Cyngor Sir Ddinbych).

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**2. ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. Bu i'r Cynghorydd David Healey enwebu'r Cynghorydd Dave Hughes ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Nigel Williams. Ni chyflwynwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. Bu i'r Cynghorydd Dave Hughes enwebu'r Cynghorydd Nigel Williams ac eiliwyd hyn.

Cadeiriodd y Cynghorydd Dave Hughes y cyfarfod o'r pwynt hwn ymlaen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Penodi'r Cynghorydd Dave Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor; a

(b) Penodi'r Cynghorydd Nigel Williams fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

**3. CYNNIG I FABWYSIADU CYNLLUN RHEOLI AR GYFER YR AHNE**

Cyflwynodd Howard Sutcliffe adroddiad ar Gynllun Rheoli'r AHNE a oedd ynghlwm i'w ystyried. Dywedodd fod y Cynllun wedi'i gylchredeg ar gyfer ymgynghoriad ac roedd crynodeb o'r sylwadau a gafwyd wedi'u manylu ar dudalennau 9 – 11 yn yr adroddiad. Roedd y sylwadau wedi'u cynnwys a cheisiwyd cymeradwyaeth i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli drafft ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac argymhellwyd ei gyhoeddi.

**PENDERFYNWYD**

Bod y Cynllun Rheoli drafft ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael ei fabwysiadu ac argymhellwyd ei gyhoeddi.

**4. AMRYWIAD I'R CYTUNDEB CYFREITHIOL I GYNYDDU AELODAETH Y CYD-BWYLLGOR I DRI AELOD I BOB AWDURDOD**

Darparodd Howard Sutcliffe wybodaeth gefndir ar y cynnig a dywedodd mai'r sefyllfa bresennol oedd bod bob awdurdod lleol yn gallu enwebu dau aelod i fod ar y Cyd-bwyllgor. Eglurodd bod yr amrywiad yn cynnig dau opsiwn sef cynyddu nifer yr enwebiadau i 3 aelod neu gael dirprwy penodol. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r Cynghorwyr Dave Hughes a Nigel Williams yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar y cynnig gan swyddogion yn eu hawdurdod lleol ac yn darparu adborth i'r Pwyllgor.

**5. COFNODION DRAFFT CYFARFOD CYD-BWYLLGOR YR AHNE A GYNHALIWYD AR 5 TACHWEDD 2021**

Cyflwynwyd cofnodion Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021. Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cofnodion Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2021 yn cael eu cymeradwyo.

**6. COFNODION DRAFFT CYFARFODYDD BLAENOROL PARTNERIAETH YR AHNE 2021**

Derbyniwyd cofnodion drafft Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy er gwybodaeth.

- 4 Chwefror 2022
- 20 Mai 2022
- 14 Hydref 2022

Rhoddodd Andy Worthington, Cadeirydd Partneriaeth yr AHNE, adborth ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2022. Bu iddo gyfeirio at y prif bwyntiau o

drafodaeth, fel y manylir yn y cofnodion, ac adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma.

Gan gyfeirio at y Wobr AHNE 2022 a gyflwynwyd i Dr Christine Evans, awgrymodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn ysgrifennu i ddiolch am y gwaith caled a'r gefnogaeth a roddwyd gan unigolion a dderbyniodd y Wobr.

Dywedodd Howard Sutcliffe y dylid rhoi ail wobr i'r Grid Cenedlaethol am eu buddsoddiad 8 mlynedd yn eu cronfa - '*Y Fenter Gwella Tirwedd*' sydd wedi gweld ystod helaeth o welliannau tirwedd yn Nyffryn Morwinion gyda dros £600,000 yn cael ei fuddsoddi o Gronfa Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol, a chefnogaeth a roddwyd i'r AHNE. Eiliwyd hyn gan y Cadeirydd a chafodd ei gytuno gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cofnodion Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 20 Mai a 14 Hydref 2022.

## 7. DATGANIAD ARIANNOL BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR

Cyflwynodd Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo, yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr AHNE ar 31 Mawrth 2022 a chael cymeradwyaeth o ran y gyllideb ar gyfer 2022/23. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r AHNE ar gyfer 2021/22 fel y manylir yn Atodiad 1. Roedd y sefyllfa derfynol yn dangos gorwariant cyffredinol o £27,008 a oedd wedi dod o'r cronfeydd refeniw wrth gefn. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi copi o'r Datganiad Blynyddol ar gyfer cyrff llywodraeth leol llai yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (Atodiad 3) i'w ystyried a'i gymeradwyo. Cafodd y datganiad ei archwilio gan Archwilio Mewnol Sir Ddinbych.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1) a Balansau'r Gronfa wrth Gefn ar 31 Mawrth 2022 (Atodiad 4). Gofynnwyd i aelodau gymeradwyo'r gyllideb ddrafft 2022/23 yn ffurfiol (Atodiad 2) ac adolygu a llofnodi'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 (Atodiad 3). Roedd cymeradwyo a llofnodi'r Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (Atodiad 3) yn ofyniad statudol cyn i Archwilio Cymru archwilio'r cyfrifon.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo, ar 31 Mawrth 2022, roedd balans Cronfa Wrth Gefn yr AHNE (Atodiad 4) yn £421,384. Cafodd £391,551 o'r ffigwr hwn ei glustnodi ar gyfer prosiectau penodol a fyddai'n datblygu yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd balans o £29,833 ar gael i gefnogi cyllideb refeniw 2022/23, disgwylir y bydd angen y rhan fwyaf ohono yn 2022/23.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1) a Balansau'r Gronfa wrth Gefn ar 31 Mawrth 2022 (Atodiad 4);

(b) Bod cyllideb drafft 2022/23 (Atodiad 2) yn cael ei gymeradwyo; a

(c) Bod y Datganiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 (Atodiad 3) yn cael ei lofnodi.

**8. PARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG**

Rhoddodd Howard Sutcliffe ddiweddariad ar lafar ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Soniodd am y cynnydd a gyflawnwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, ac am y trafodaethau a gynhelir ynglŷn â'r cynigion ar ardaloedd ffiniol.

**9. COFRESTR RISG DRAFFT**

Cyflwynodd Howard Sutcliffe y gofrestr risg ddrafft. Cyfeiriodd at risg rhif 3: Colli cyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a dywedodd nad oedd cyllid grant Craidd AHNE CNC ar gyfer eleni wedi'i dderbyn eto a chynhigiwyd bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio at y Prif Weithredwr.

Soniodd Steve Gadd am risgiau uchel posibl rhif 2 a 3 a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf.

**10. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Howard Sutcliffe y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a rhoddodd ddiweddariad ar lafar ar gynnydd yr eitemau a restrwyd.

Mynegodd y Cadeirydd bryderon o ran yr ansicrwydd parhaus o ran cyllid yn y dyfodol gan y Llywodraeth Leol a Chenedlaethol i awdurdodau lleol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Mae dyddiadau cyfarfodydd nesaf Cyd-bwyllgor yr AHNE fel a ganlyn:

Dydd Gwener, 17 Mawrth 2023
Dydd Gwener, 23 Mehefin 2023
Dydd Gwener, 17 Tachwedd 2023

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.50 a.m.)

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE**
**Dydd Gwener 14 Hydref 2022**
**am 10:00**
**Hwb Cymunedol, Coleg Llysfasi.**

Yn Bresennol

**Aelodau Partneriaeth yr AHNE**
Y Cynghorydd Win Mullen-James CSDd
**Cadeirydd y Cydbwyllgor**

Y Cynghorydd Alan James CSDd
Y Cynghorydd Martyn Hogg CSDd
Y Cynghorydd David Healey CSFf

Cadeirydd y Bartneriaeth
Andrew Worthington OBE

Cynrychiolwyr Buddion Gwledig
Dr Christine Evans, Roger Cragg

Cynrychiolydd Buddion Tirwedd
Michael Skuse

Cynrychiolydd Buddion Trefol
Ian Papworth

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol
Les Starling

Cynrychiolwyr Rheoli Tir
Sandy Archdale, Rhian Pierce

Cynrychiolydd Hamdden a Hawliau Tramwy
John Roberts

Cynrychiolydd Buddion Unigol
David Davies

**AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Howard Sutcliffe Swyddog yr AHNE
David Shiel Rheolwr Ardal yr AHNE
Karen Weaver Cydlynydd yr AHNE
Rachel Jones Uwch Geidwad y Gogledd yr AHNE
Hannah Arndt Swyddog Mynediad a Hamdden
Graham Berry Swyddog Rhostir
Rhun Jones Uwch Geidwad y De'r AHNE
Tom Johnstone Swyddog Newid Hinsawdd, Isadeiledd Gwyrdd a Dalgylchoedd yr AHNE

Cynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint
Derrick Charlton Swyddog Hawliau Tramwy

Cynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych
Huw Rees
Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth

Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Mike Bather Safle Treftadaeth y Byd (WHS)

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:
Y Cynghorydd Anthony Wedlock (CBSW), y Cynghorydd David Hughes (CSFf), y Cynghorydd Hugh Jones (CBSW)
Y Cynghorydd Jonathon Harland (CSDd), Fiona Gale, Carole Rothwell, Del Roberts Jones, Ceri Lloyd, Alun Price, Huw Morgan, Rajan Madhok, Tom Woodall, Kate Thomson.

DRAFT

DRAFT

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau newydd y Cynghorydd Win Mullen-James, y Cynghorydd Alan James, y Cynghorydd Martyn Hogg, y Cynghorydd David Healey, Derrick Charlton, Mike Bather i'r cyfarfod. Cyflwynodd yr Aelodau eu hunain o amgylch y bwrdd.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ddydd Gwener 20 Mai 2022**

Ychwanegu David Davies at restr presenoldeb yn y cyfarfod.

**Materion yn codi**

Cynllun Rheoli'r AHNE

Adroddodd Rheolwr Ardal yr AHNE David Shiel, bod y cynllun ar ffurf drafft ac y byddai'n cael ei gyflwyno i Gyfarfod y Cyd-bwyllgor fis nesaf.

Cynllun Hamdden yr AHNE

Roedd rhagor o gyllid wedi'i gymeradwyo, a byddai gwaith pellach yn cael ei gyflawni yn rhan Ogleddol yr AHNE. Roedd y Swyddog Mynediad a Hamdden, Hannah Arndt yn gweithio ar y Cynllun. Trafododd yr Aelodau'r tagfeydd ar hyd y ffordd tuag at Pen Barras, ac eglurodd David Shiel y bu rhywfaint o welliant dros yr haf. Roedd system rwystrau newydd wedi'i osod gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn y maes parcio yn y gwaelod, a hyd yma, roedd yn llwyddiannus.

Rhaeadr y Bedol

Trafododd yr Aelodau'r materion parcio parhaus yn Rhaeadr y Bedol, a'r llinellau melyn sydd wedi'u peintio yn awr. Ond, roedd ymwelwyr yn eu hanwybyddu gan fwyaf. Eglurodd David Shiel bod y materion wedi'u codi gyda CSDd a'r Gwasanaethau Stryd, ac y byddai Tîm yr AHNE yn cynorthwyo cymaint â phosibl dros fisoedd y gaeaf, ond, byddai capasiti staffio yn gwneud gwahaniaeth sylweddol. Roedd dau swyddog wedi'u cyflogi gan CSDd ar benwythnosau ar gyfer materion gorfodi, ond roedd y ddau wedi'u lleoli ym Mhrestatyn.
Eglurodd y Cynghorydd Win Mullen-James y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried parcio, gorfodi a'r holl gostau cysylltiol.

2b Cofnodion Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy

Eglurodd David Shiel bod y Swyddog Prosiect, Kate Thomson, wedi symud ymlaen i rôl arall gyda Gwasanaethau Treftadaeth CSDd, ond, roedd yn parhau i weithio ar y prosiect ddeuddydd yr wythnos. Byddai Hannah Marubbi yn derbyn rôl y Swyddog Prosiect yn y Flwyddyn Newydd.
Roedd gwaith atgyfnerthu yn cael ei gyflawni yng Nghastell Dinas Brân ar hyn o bryd.
Cytunwyd bod Kate a'r Tîm wedi cyflawni gwelliannau gwych.
Cam Gweithredu
Anfon neges o ddiolch ar ran y Bartneriaeth i Kate Thomson.

**Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.**

**3. Trosolwg o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)**

Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan Swyddog yr AHNE, Howard Sutcliffe. (gweler ynghlwm). Roedd yn rhoi trosolwg o'r AHNE gan gynnwys y Cytiau Bugail ym Mhen Barras, y Prosiect Pori ar Fryniau Prestatyn, y maes parcio newydd yn Graig Fawr, Safle Treftadaeth y Byd, cynlluniau'r Grid Cenedlaethol a Rhwydweithiau Scottish Power.

Codwyd pryderon o ran cyfleusterau toiled yn cael eu cau dros y blynyddoedd diwethaf, a phwysigrwydd da byw yn yr AHNE.

Rheoli Rhostiroedd yr AHNE

Eglurodd Swyddog Rhostir, Graham Berry, bod Ceidwaid ar y safle yn rheolaidd i ddiffodd tanau dros yr haf, ac roeddent yn ffodus iawn na chafwyd unrhyw danau mawr.

Prosiect Pori ar Fryniau Prestatyn

Eglurodd Uwch Geidwad y Gogledd yr AHNE, Rachel Jones, y byddai'r stoc yn cael ei ddarparu gan ffermwr lleol. Codwyd pryderon am gŵn yn poeni anifeiliaid, ac eglurodd Rachel fod cŵn yn poeni anifeiliaid wedi'i ystyried a bod ardaloedd penodol wedi'u cynnig ar gyfer cerddwyr cŵn i adael eu cŵn oddi ar eu tennyn.

Baddondy Rhufeinig Prestatyn

Nodwyd nad yw'r Baddondy o fewn ffiniau'r AHNE. Eglurodd Howard bod y safle yn agos iawn at y ffin ac yn eiconig a phwysig.
Roedd Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) wedi cyfrannu at y prosiect.

Hawliau Tramwy

Nodwyd nad oedd Mynediad Cyhoeddus yn cael ei gynnwys yn y cyflwyniad, a nodwyd bod cryn dipyn o waith i'w wneud o ran Hawliau Tramwy.

Wrth grynhoi nododd y Cadeirydd mai adnoddau oedd y broblem gyda'r materion a godwyd, a gyda statws Parc Cenedlaethol byddai mwy o gyllid ar gael i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**4. Adolygu Aelodaeth Gweithgor yr AHNE**

Gweithgorau'r AHNE

1. Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC)
2. Hamdden, Iechyd a Lles
3. Cymeriad Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig
4. Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau
5. Twristiaeth Gynaliadwy ac Ymgysylltu Busnes
6. Amgylchedd Naturiol a Rheoli Tir

Rhoddodd Howard Sutcliffe, Swyddog yr AHNE ddiweddariad ar lafar yn egluro bod y gweithgorau cyfredol yn addas ar gyfer y Cynllun Rheoli blaenorol, ond, byddai'r Cynllun Rheoli newydd ychydig yn wahanol a byddai'n cynnwys newid hinsawdd, adfer natur, economi wledig (yn dilyn Brexit).

**4a** Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy ac Ymgysylltu Busnes

Eglurodd Howard bod yr AHNE yn cyfrannu at Grŵp Twristiaeth CSDd, Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd, ac er mwyn osgoi dyblygu cyfarfodydd cynigodd bod Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd yn adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth.

**4b** Amgylchedd Naturiol a Rheoli Tir

Roedd yr AHNE yn cyfrannu at y Grŵp Bionet a chynigodd Howard bod y Grŵp Bionet yn adrodd yn ôl i'r bartneriaeth, i osgoi dyblygu.

Cynigwyd y dylid trefnu Gweithgor 'Newid Hinsawdd ac Adfer Natur'.
Cynigwyd bod grŵp yn cael ei drefnu gyda phobl sy'n byw a gweithio yn yr AHNE.

I grynhoi gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau ystyried a oeddent yn cytuno i adolygu'r grwpiau a gofyn i Swyddogion yr AHNE baratoi dogfen i'w dosbarthu i'r aelodau.

Cam Gweithredu

- Y byddai'r holl Weithgorau yn cael eu hadolygu a pharatoi dogfen i'w hanfon at yr holl aelodau.
- Cyflwyno'r holl ymatebion i'r Cadeirydd.

**5. Menter Gwella Tirwedd AHNE**

Darparodd David Shiel gyflwyniad PowerPoint; yn egluro bod y cyllid y mae'r Grid Cenedlaethol yn ei roi i'r AHNE a Pharciau Cenedlaethol ar gyfer gwaith o dan y ddaear. Gellir cwblhau uchafswm o dri phrosiect ar unrhyw adeg, gyda chyllideb o £200mil ar gyfer pob prosiect.

DRAFT

Howard oedd y cynrychiolydd ar Fwrdd y Grid Cenedlaethol ar gyfer pob AHNE yng Nghymru,

Adfer grug yn Llantysilio
Mae hadau grug wedi'u plannu yn yr ardaloedd a ddifrodwyd yn sylweddol ac roedd adferiad natur wedi bod yn dda mewn rhai lleoedd.

Ymylon Ffyrdd
Roedd gan CSDd bolisi ar gyfer ymylon, ac roeddent yn cael eu rheoli gan Dîm Bioamrywiaeth CSDd, Gwasanaethau Stryd a'r cymunedau lleol. Nodwyd weithiau nad oedd perchnogion preifat yn cydymffurfio â pholisi CSDd.
Cytunwyd bod torri gwair yn broblem fawr ar gyfer yr awdurdodau.

Prosiect y Gylfinir
Dywedodd Rhian Pierce ei bod yn gweithio gyda'r RSPB yn rhan amser a chodi pryderon y gallai'r cloddiau greu coridor ar gyfer llwynogod, a allai beri problem ar gyfer y gylfinir sy'n nythu. Eglurodd David fod yr AHNE wedi targedu dirywiad y gylfinir a bod tîm yr AHNE yn aelodau o 'brosiect Curlew Cymru' i ymateb i'r dirywiad. Roedd yr AHNE wedi datblygu perthnasoedd da gyda ffermwyr a pherchnogion tir, ac roedd cryn dipyn o waith yn cael ei gwblhau. Hoffai'r AHNE ategu at y gwaith hwn.

Dyffryn y Morwynion
Croesawyd gwaith sy'n cael ei gyflawni mewn ardaloedd llai adnabyddus o'r AHNE.

I grynhoi, nododd y Cadeirydd bod yr AHNE wedi derbyn pum grant, a oedd yn broses anodd iawn, a llongyfarchodd y Tîm am eu cyflawniad, ac ychwanegu bod y gyllideb sylfaenol yr oedd yr AHNE yn ei dderbyn yn isel iawn a bod cyllid ac adnoddau yr oedd y Tîm wedi'u sicrhau yn anhygoel.

**6. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Swyddog yr AHNE**
Eglurodd Swyddog yr AHNE bod yr AHNE yn gobeithio ailddechrau'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ond byddai'n rhaid cynnal Cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ar-lein, a oedd yn siomedig.

Aelodaeth y Bartneriaeth
Roedd yr Archeolegydd, Fiona Gale wedi cytuno i ymuno â'r Bartneriaeth yn ddiweddar.

Penodiadau i'r AHNE
Roedd cyn aelod y Bartneriaeth, Huw Morgan wedi'i benodi gan yr AHNE fel Swyddog Tirwedd a Ffermio. Byddai Swyddog Ymgysylltu yn cael ei benodi'n fuan.

Cyhoeddiad Gwarchod y Dirwedd ac Adfer Byd Natur mewn Hinsawdd sy'n Newid
Roedd y cyhoeddiad wedi'i enwebu ar gyfer gwobr gan Sefydliad Tirwedd, a bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ddiwedd y mis.

Prosiect Isadeiledd Gwyrdd Llangollen
Roedd y llyfryn wedi'i gyhoeddi'n awr.

Offer a Chludiant Di-danwydd Ffosil
Roedd digwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) wedi'i gynnal yn ddiweddar yng Nghastell y Waun gyda phresenoldeb da.

Prosiect Ffotograffiaeth Pwynt Penodol
Roedd camerâu wedi'u gosod yn Loggerheads, Prestatyn, Pontcysyllte.

Swyddog Newid Hinsawdd, Isadeiledd Gwyrdd a Dalgylchoedd yr AHNE
Byddai Tom Johnstone yn gadael yr AHNE yn fuan i ddechrau gweithio gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nododd Howard bod Tom wedi cyflawni llawer yn y deuddeg mis y bu'n gweithio gyda'r AHNE, a diolchodd iddo am ei waith caled a dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

**6a** Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru
Nododd Swyddog yr AHNE bod Leslie Griffiths AS wedi'i phenodi fel Gweinidog yr Amgylchedd.

DRAFT

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi penodi Tîm i symud y prosiect yn ei flaen yn ddiweddar. Byddai gwahoddiad i gynrychiolwyr CNC i fynychu Cyfarfod nesaf y Bartneriaeth i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd bod yr AHNE yn cyfranogi yn y broses gyfan, ynghyd ag ymgysylltu gyda pherchnogion tir a ffermwyr.
Eglurwyd bod CSDd yn cynhyrchu strategaeth ac na gynhaliwyd ymgynghoriadau hyd yma.
Eglurodd y Cadeirydd bod CNC yn arwain y prosiect ac y byddai'r AHNE yn cynorthwyo gyda'r broses. Ni chafwyd unrhyw ymgynghoriadau ffurfiol hyd yma ond byddai'r gymuned ffermio yn cael lle blaenllaw mewn unrhyw sgyrsiau ac ystyriaethau.
Cam Gweithredu

- Gwahodd cynrychiolwyr CNC i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf.

**6b Gwobr AHNE ar gyfer 2022**

Cynigodd Swyddog yr AHNE bod y wobr ar gyfer eleni yn cael ei roi i aelod triw y Bartneriaeth, Dr Christine Evans. Eglurodd mai Christine oedd Cadeirydd Gweithgor Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau, ac roedd yn gwneud pob ymdrech i fynychu cyfarfodydd ac ymweliadau safle ac weithiau'n defnyddio'r sgwter symudedd. Roedd hefyd yn Ymddiriedolwr ar gyfer Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
Roedd Christine wedi dod â bywyd i bentref Llanarmon yn Iâl, drwy'r dafarn gymunedol, y Raven, ac yn gwirfoddoli yn y siop gymunedol. Mae'r AHNE wir wedi gwerthfawrogi brwdfrydedd a pharodrwydd Christine i helpu mewn unrhyw ffordd.
Cam Gweithredu

- Cytunwyd yn unfrydol y dylid cyflwyno Gwobr AHNE 2022 i Dr Christine Evans.

**Unrhyw Fater Arall**

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**7. Crynhoi'r Cyfarfod gan y Cadeirydd**

I grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y byddai materion parcio yn cael eu hystyried, ynghyd ag adolygiadau o'r Gweithgorau, gydag adroddiadau yn cael eu dosbarthu.
Roedd prosiect LEI yn enghraifft berffaith o gyllid yn cael ei gadarnhau ar gyfer y gwasanaeth.
Roedd y canllawiau cyhoeddi yr oedd Tom wedi'u cwblhau yn rhagorol.
Gobeithiwyd y byddai'r AHNE a Phartneriaeth yr AHNE yn cyfranogi'n llawn ar gyfer statws Parc Cenedlaethol.
Llongyfarchodd Dr Christine Evans am dderbyn gwobr yr AHNE.

**8. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE | Dydd Gwener 3 Chwefror | 2023 | 10:00 | I'w benderfynu |
| Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE | Dydd Gwener 10 Tachwedd | 2022 | 10:00 | Ar-lein |
| Fforwm yr AHNE | Dydd Mercher 23 Tachwedd | 2022 | 18:30 | Coleg Cambria Hwb Gymunedol |
| Cyd-bwyllgor AHNE | Dydd Gwener 17 Mawrth | 2023 | 10:00 | I'w benderfynu |
| Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE | Dydd Gwener 19 Mai | 2023 | 10:00 | I'w benderfynu |

DRAFT

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DRAFT

# Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy

## Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio,

## Canolfan Gymunedol Garth a Trefor,

## Heol Penderyst, Trefor.

## Dydd Mawrth 14 Chwefror 2023 2pm i 4pm.

**Aelodau yn Bresennol**

David Shiel (DS), Alun Price (AP), Del Roberts Jones (DRJ), Hannah Marubbi (HM), Ffion Roberts (FR), Jillian Howe (JH), Kate Thomson (KT), Fiona Gale (FG).

**Ymddiheuriadau**

Samantha Williams (SW), Andrea Fox (AFX), Huw Rees (HR), Lynne Jones (LJ), Howard Sutcliffe (HS **Cadeirydd)**, John Roberts (JR), Nicola Lewis-Smith (NLS), Mike Bather (MB), Rhun Jones (RJ), Fiona Grant (FGr), Paul Evans (PE), Sallyanne Hall (SH).

| | | |
|---|---|---|
| **1. Croeso ac Ymddiheuriadau** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. | **Camau Gweithredu** |
| **2 . Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | Y wybodaeth ddiweddaraf am Borthdy Dinas Brân – Mae pryderon wedi'u mynegi wrth Recclesia o ran pa bryd caiff y gwaith ei gwblhau, y nod yw'r gwanwyn a thywydd gwell. Caiff cyllid ei gadw nes i'r gwaith gael ei gwblhau. Mae Cadw wedi'n cynghori ni i gwblhau'r hawliad am y gwaith a gwblhawyd hyd yma a rhoddir estyniad ar gyfer gweddill y gwaith. KT a HM i wirio gyda Cadw pa bryd mae dyddiad cau'r hawliad.<br>Y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau staff. Bydd KT yn aros ar y prosiect 1 diwrnod yr wythnos, gyda HM yn rheoli'r prosiect dros y 4 diwrnod arall. | **KT HM** |

| | | |
|---|---|---|
| **3.**<br>**Cofrestr Risg y Prosiect** | Dosbarthwyd copïau o'r gofrestr risg i'r grŵp. Eglurodd HM y ddogfen i'r grŵp.<br>**<u>Porthdy Dinas Brân</u>** - Oren.<br>Mae'r prosiect ar ei hôl hi ar hyn o bryd, fe ddylai fod wedi'i gwblhau cyn y Nadolig.<br>Nid yw Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys (CPAT) wedi cwblhau'r adroddiad terfynol eto ond maen nhw wedi dweud y bydd yn barod erbyn mis Mawrth. Nid oes digwyddiadau cymunedol ar Ddinas Brân wedi'u cynnal eto yn ystod oes y prosiect ond rydym yn bwriadu cynnal digwyddiad mawr ym mis Gorffennaf, a digwyddiad Drysau Agored ym mis Medi. Gan nad yw'r digwyddiadau hyn wedi'u cynnal eto, mae'r gofrestr risg wedi'i marcio'n oren.<br><br>**<u>Adfer ein Treftadaeth Ddiwydiannol</u>**<br>Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau hyn wedi'u cwblhau bellach. Yr unig waith nad yw wedi'i wneud yw gosod y plac ar wal Tramffordd Dyffryn Ceiriog. Mae contractwr wedi'i benodi i gwblhau'r dasg hon dros yr wythnosau nesaf.<br><br>Mae gwaith adeiladu pwmp RAM Plas Newydd wedi'i oedi oherwydd bod y contractwr wedi cael anaf. Mae wedi bod i'r safle ac mae'n bwriadu dechrau gwaith ar yr adeilad fis Ebrill. Bydd y gwaith hwn a datblygu gardd y gors yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli.<br>Mae gan Gaban y Fforddolwyr yn Rhaeadr y Bedol gyfleoedd gwirfoddoli ond mae'n dal i fod yn gyfrifoldeb i Glandŵr Cymru i'w gweithredu.<br>Dywedodd DS fod yr AHNE wedi cynnal proses recriwtio gwirfoddolwyr a gafodd ei chroesawu'n fawr, ac efallai bydd modd cyfeirio gwirfoddolwyr i'r safle hwn.<br>Mae tanwariant ar Adfer ein Treftadaeth Ddiwydiannol yn golygu bod cyllid yn cael ei gyfeirio at Gaban y Fforddolwyr ym masn Froncysyllte. Mae gan Glandŵr Cymru gyllid i adfer cyfleusterau lles ar y safle hwn, a gyda chyllid Ein Tirlun Darluniadwy, byddant yn adfer blaen yr adeilad hwn. Caiff to a chefn yr adeilad eu hadfer gan Glandŵr Cymru yn y dyfodol.<br><br>**<u>Rheoli Panorama</u>**<br>Mae hwn yn dal i fod yn oren oherwydd nad oes gwariant wedi'i wneud eto. Cynhaliwyd digwyddiadau yno'r haf diwethaf fel rhan o'r broses ymgysylltu cymunedol, ond mae trafodaethau wedi dechrau am yr arwyddion a gwaith sy'n cyfyngu ar leoedd parcio. Mae RJ wedi cael trafodaethau gyda pherchnogion y tir a oedd yn gadarnhaol am y syniadau. Bydd angen cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru o ran sut gellir gweithredu'r syniadau hyn.<br><br>**<u>Parc Poced Wenffrwd</u>**<br>Croesawyd y parc a bwriedir dechrau cynnal digwyddiadau yma.<br><br>**<u>Y Bws Darluniadwy</u>**<br>Mae'r gwasanaeth bws yn mynd i'w drydedd blwyddyn bellach. Bydd yn dechrau'n gynt ar 1 Ebrill a dod i ben ar 4 Tachwedd. Caiff ei | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | hysbysebu i ardaloedd ehangach trwy gylchgrawn Shire Magazine. Bydd hysbyseb ac erthygl yn ymddangos o fis Mawrth i fis Mehefin.<br>Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gofyn i'r bws stopio ym maes parcio pafiliwn Llangollen oherwydd teimlwyd y gallai'r bws helpu i leddfu'r problemau parcio yn Llangollen. Mae'r llwybr wedi'i addasu rhywfaint er mwyn darparu'r newid hwn. Safle arall lle gobeithir y bydd y bws yn lleddfu problemau parcio yw Rhaeadr y Bedol.<br>Mae bws trydan wedi'i brofi i weld sut mae'n gweithredu o amgylch y llwybr, a byddai'n opsiwn da o ran marchnata. KT i holi Martin Griffiths i weld a yw hyn yn opsiwn ar gyfer y tymor hwn. | KT |
| | **<u>Llwybrau Cylchol Darluniadwy</u>**<br>Mae rhai o'r llwybrau heb eu gorffen.<br>Mae'r llwybr Artistiaid a Pheirianwyr yn aros i'r tîm Ceidwaid osod yr isadeiledd yn ystod mis Ebrill cyn dosbarthu'r taflenni a argraffwyd.<br>Taflen Llwybr y Waun. Mae'r pyst arwyddion wedi cyrraedd ac mae caniatâd wedi'i sicrhau gan berchnogion tir Castell y Waun a Kronospan, ond mae'n anodd iawn cysylltu ag un perchennog tir arall. Mae'r daflen wedi'i chwblhau ac mae'n barod i gael ei hargraffu.<br>Mae llwybr a thaflen Cefn Mawr wedi'u gohirio ond mae angen ailgadarnhau'r llwybr.<br>Darganfod Llwybrau Dyffryn Dyfrdwy, sef hen lyfryn Darganfod Corwen. Bydd JH yn ailddylunio'r daflen a bydd yn cynnwys y llwybr o Wenffrwd i Langollen.<br>Mae tîm Dyffryn Dyfrdwy yn bwriadu cwrdd ar gyfer teithiau tywys bob pythefnos felly gallant ddefnyddio rhai o lwybrau Ein Tirlun Darluniadwy. | |
| | **<u>Dehongli'r Tirlun</u>**<br>Rydym wedi cael dyddiad yr wythnos sy'n dechrau 13 Mawrth ar gyfer gosod byrddau dehongli Safle Treftadaeth y Byd. Mae ambell ganiatâd gan Glandŵr Cymru sydd eu hangen o hyd ond gobeithio bydd popeth yn mynd yn ôl y bwriad. Bydd yr hen arwyddion yng Ngledrid yn cael eu symud yr wythnos hon, yn barod ar gyfer yr arwydd newydd. | |
| | Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu yng Nghaffi Wylfa er mwyn i'r grŵp weld y paneli dehongli newydd.<br>Bydd paneli Rhaeadr y Bedol yn ailddefnyddio'r hyn sydd eisoes yno ond cânt eu hailfrandio a bydd y testun yn cael ei newid yn y paneli newydd. Nid oes angen caniatâd.<br>Mae'r arwyddion Hand of Industry wedi bod yn anodd i'w dylunio a'u cwblhau ac mae angen trafodaethau o ran sut i frandio'r arwyddion hyn.<br>Byrddau dehongli Plas Newydd – Rydym yn aros am y drafft cyntaf ar hyn o bryd. Mae angen delweddau ar gyfer y cam nesaf. | FR |
| | **<u>Pecynnau Addysg</u>**<br>Mae SH yn arwain ar y prosiect hwn ac mae wedi bod yn ofalus i beidio ailadrodd unrhyw un o'r eitemau ar wefan Safle Treftadaeth y | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Byd. Mae gwaith ar y prosiect yn dal i fynd rhagddo oherwydd bod digwyddiadau ymgysylltu cymunedol wedi mynd â'i hamser.<br>**<u>Estyn Allan</u>**<br>Mae SH wedi bod yn gweithio gyda nifer o'r grwpiau trwy drefnu digwyddiadau rheolaidd iddynt. Mae angen i ni gyfarfod â grŵp Dynamic eleni er mwyn cyflawni ein canlyniadau. Effeithiodd Covid 19 ar y prosiect hwn ac mae llawer o waith wedi'i wneud i gyrraedd ein targedau.<br><br>**<u>Monitro ac Arfarnu</u>**<br>Mae wedi'i farcio'n oren, ond ar ôl cyfarfod gyda'r contractwr, nad oes ganddo unrhyw bryderon am y prosiect, er gwaetha'r newidiadau a wnaed i allbynnau a chanlyniadau'r prosiect oherwydd Covid 19.<br><br>Ar hyn o bryd, mae DS a HM yn edrych ar gyllid oherwydd bod Covid 19 wedi cael effaith andwyol ar rai o'r prosiectau. Y bwriad yw gwneud cais i'r loteri am estyniad i'r prosiect, gyda'r cyllid heb ei wario oherwydd y pandemig fel cyfiawnhad rhesymedig. | |
| **4. Digwyddiad yr Haf Dinas Brân.** | **<u>Digwyddiad yr Haf Dinas Brân.</u>**<br>Cynhelir y digwyddiad hwn ar 1 Gorffennaf. Bydd mwyafrif y gweithgareddau'n canolbwyntio ar yr ardal o dir gwastad (y 'pancake'), ond cynhelir rhai digwyddiadau ymhellach i fyny yn y castell. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn gweithio ar y digwyddiadau ar gyfer y diwrnod, a fydd yn cynnwys y camera obscura, y penset rhith-wirionedd, gweithdai paentio tirluniau, y camera Fictoraidd, stondin gacennau /lluniaeth.<br>Mae HM wedi cwrdd â Sarah Bayliss i drafod gwneud seinwedd a gaiff ei chynhyrchu fel podlediad ohoni'n arwain taith gerdded at y castell. Caiff hyn ei gynnwys yn yr arddangosfa derfynol. | |
| **5. Yr Arddangosfa Derfynol** | **<u>Yr Arddangosfa Derfynol – Oren</u>**<br>Mae Oriel Dory yn Llangollen wedi'i chadarnhau ar gyfer yr arddangosfa derfynol, a fydd yn rhedeg o 16 Medi tan 8 Hydref 2023. Mae'r oriel gyfan wedi'i llogi, gan weithio gyda'r curadur Tracy Simpson i ddathlu'r gwaith celf a wnaed yn ystod y prosiect. Mae gwaith celf newydd yn cael ei gomisiynu i sicrhau bod gennym ddewis da o waith i'w arddangos hefyd. Bydd gweithdai, sgyrsiau a phrosiectau rhyngweithiol yn cael eu trefnu yn ystod yr arddangosfa. | |
| **6. Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw** | **<u>Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw</u>**<br>Mae gofyn i'r prosiect egluro wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri sut y gofalir am y prosiectau yn y dyfodol a sut caiff buddion y prosiect eu cynnal. Bydd angen i HM a DS weithio ar y ddogfen hon i sicrhau bod prosiectau'n cael eu diogelu at y dyfodol gan bartneriaid, gyda chronfa cynnal a chadw i helpu i weithredu hyn am 10 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben.<br>Gofynnodd DRJ a oes modd dosbarthu'r cynllun i'r partneriaid i weld sut byddai hyn yn effeithio arnynt fel partneriaid. | HM |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **7. Unrhyw Fater Arall** | Mae'r gwaith Rheoli Coetir ym Mhontcysyllte yn parhau'r wythnos hon.<br>Nodwyd bod y digwyddiad carped coch ar gyfer Ysgol y Gwenant yn Neuadd y Dref Llangollen yn ddigwyddiad difyr a llwyddiannus iawn. Dolen i gael ei hanfon at bawb ar gyfer y ffilm a fyddai'n cael ei dangos y noson honno.<br>Gwahoddwyd pawb i weld y gwaith sy'n digwydd ym Mhontcysyllte i wella'r olygfa. | HM |
| **7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** | **Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Mai 2023 – Caffi Wylfa, y Waun.** | |

DRAFT

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

# CYDBWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**A gynhaliwyd ar: 17 Mawrth 2023**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Steve Gadd**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon**

**Teitl: Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon 2022/23 y Cydbwyllgor**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer 2022/23.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol amcanol yr AHNE ar 31 Mawrth 2023.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r aelodau nodi rhagolwg diweddaraf y sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1) a'r cynnydd o ran y strategaeth gyllidebol gytunedig.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r AHNE a ragwelir ar gyfer 2022/23 fel y manylir yn Atodiad 1. Y sefyllfa alldro gyffredinol a ragwelir yw mantoli'r gyllideb, efallai y bydd angen cyfraniad bach o'r gronfa refeniw wrth gefn fel y dangosir yn Atodiad 1.

## 5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd rheoli cyllidebau refeniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y cynllun rheoli ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â'n partneriaid cyllid a'n cyd-flaenoriaethau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2022/23.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r gyllideb yn dibynnu ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newid i lefel yr incwm hwn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

Fel y nodir yn y gyllideb mae angen cefnogi'r gyllideb refeniw o'r gronfa refeniw wrth gefn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

O dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

**CYD-BWYLLGOR AHNE** Atodiad 1

**(CYNGHORAU SIR DDINBYCH, SIR Y FFLINT A WRECSAM)**

**CRAIDD - CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW AR 28 CHWEFROR 2023**

| | Cyllideb 2022/23 | Canlyniad a Ragolygir 2022/23 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **GWARIANT** | | |
| Gweithwyr | | |
| Cyflogau | 203,189 | 217,290 |
| Hyfforddiant a Chynadleddau | 500 | 2,432 |
| Tanysgrifiadau | 2,700 | 2,914 |
| Ffisiotherapi | | |
| Yswiriant | 692 | 692 |
| Cyfanswm costau Gweithwyr | 207,081 | 223,328 |
| Cerbyd a Theithio | | |
| Llogi Cerbydau | 300 | 323 |
| Milltiroedd | 2,700 | 2,700 |
| Defnyddio Cludiant Cyhoeddus | | 35 |
| Cyfanswm Treuliau Cerbydau a Theithio | 3,000 | 3,058 |
| Arall | | |
| Dillad Diogelwch | 1,500 | 1,500 |
| Treuliau Swyddfa | 200 | 500 |
| Cynllun Rheoli / Ffioedd Proffesiynol | 2,500 | 2,500 |
| Ffioedd Archwilio | 1,134 | 1,134 |
| Costau TG / Cyfathrebu | 2,900 | 3,169 |
| Ffonau | 700 | 1,012 |
| Cyfanswm Ffioedd Eraill | 8,934 | 9,815 |
| Prosiectau | | |
| Grantiau | 95,000 | 95,000 |
| Cyfanswm Costau Prosiectau | 95,000 | 95,000 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **314,015** | **331,201** |
| **INCWM** | | |
| Grant Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Cyfoeth Naturiol ( | -108,500 | -113,757 |
| Ffi Rheoli Cronfa Datblygu Cynaliadwy | -5,000 | -5,000 |
| Grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy | -95,000 | -95,000 |
| Cyllid ALl | -99,585 | -99,969 |
| Cyllid Grant LlC | | -11,000 |
| Cyfraniadau o'r Gronfa wrth Gefn | -5,930 | -512 |
| **CYFANSWM INCWM** | **-314,015** | **-325,238** |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **0** | **5,963** |

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**CYD-BWYLLGOR AHNE** Atodiad 1

**(CYNGHORAU SIR DDINBYCH, SIR Y FFLINT A WRECSAM)**

**ARDAL - CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW AR 28 CHWEFROR 2023**

| | **Cyllideb 2022/23** | **Canlyniad a Ragolygir 2022/23** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| **GWARIANT** | | |
| Gweithwyr | | |
| Cyflogau | 177,788 | 192,783 |
| Hyfforddiant | 500 | 132 |
| Yswiriant | 606 | 606 |
| Cyfanswm costau Gweithwyr | 178,894 | 193,521 |
| Cerbydau a Theithio | | |
| Tanwydd | 4,500 | 4,500 |
| Fflyd | 19,000 | 19,000 |
| Teithio | 1,200 | 1,200 |
| Cyfanswm Treuliau Cerbydau a Theithio | 24,700 | 24,700 |
| Arall | | |
| Dillad Diogelwch | 2,500 | 1,200 |
| Rheoli Safle | | 1,000 |
| Offer Cyffredinol | 500 | 404 |
| Costau TG / Cyfathrebu | 2,600 | 2,757 |
| Ffonau | 550 | 815 |
| Gwariant Prosiectau / Gweithgarwch | 4,000 | 4,000 |
| Cyfanswm Ffioedd Eraill | 10,150 | 10,176 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **213,744** | **228,397** |
| **INCWM** | | |
| Partneriaeth Coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru | -30,821 | -30,821 |
| Cyllid ALl | -174,923 | -203,539 |
| Cyfraniadau o'r Gronfa wrth Gefn | -8,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **-213,744** | **-234,360** |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **0** | **-5,963** |

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

| Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2023 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol**<br>**Newydd** | **Manylion/Cam Gweithredu**<br>***Cam gweithredu wedi'i ddiweddaru*** | **Amserlen**<br>**Dyddiadau newydd** | **Amserlen Heb ddechrau neu'n broblem = Coch Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren Cwblhawyd = Gwyrdd** | **Cost -negatif neu +bositif (£ Cost) neu niwtral (Trwy gyllidebau presennol ac allanol)** |
| **Cyllid** | | | | |
| Cyllid ac Ariannu | *Cofrestr Risg Ddrafft i'r Cyd-bwyllgor 10.11.22* | **2022-23** | | Niwtral |
| Cyllid Craidd AHNE CNC | *Derbyniwyd y cynnig er £20,000 yn brin o refeniw (£20,000 ar gyfer dwy flynedd)* | 2022-24 | | -Negatif |
| Cronfa llenwi bwlch LlC | *Derbyn Cynnig LlC am £20,000 o refeniw ar gyfer 22-23* | 2022-23 | | +Positif |
| Cronfa Datblygu Cynaliadwy | LlC yn parhau i ariannu ar £100,000 RS Gweithio yn lle CL ar gyfnod mamolaeth | 2022-25 | | +Positif |
| **Cynlluniau Strategol 2022-25** | | | | |
| Cynllun Rheoli'r AHNE | *Cynllun Rheoli gyda'r argraffwyr 28.2.23. Dylai fod ar gael i'r Cyd-bwyllgor 17.3.23* | **2022-25** | | Niwtral |
| Cynllun Hamdden Canolog | *Daliadau a chamau gweithredu i'w cynnwys ar y map wedi'i anodi. Camau Gweithredu gweler SLSP 2022-23* | **2022** | | +Positif |
| Cynllun Twristiaeth AHNE | *Ymgynghoriad ar waith i CRTG. Hydref 2022* | **2022-23** | | Niwtral |
| **Cyd-bwyllgor AHNE** | | | | |
| Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor | **Cyfarfod y Cyd-bwyllgor yn ôl ar y trywydd iawn, yr holl aelodau wedi cyfarfod â'r cadeirydd newydd ym mis Tachwedd 2022** | **2022-23** | | Niwtral |
| Cytundeb Cyfreithiol ALI | Awdurdodau Lleol wedi cytuno a chadarnhau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf | 2019-2024 | | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Nid yw Cyfansoddiad CSyFf yn caniatáu dirprwyon trwy'r Arweinydd* | | | |
| Fforwm yr AHNE | *Thema Newid Hinsawdd Llysfasi wedi'i chwblhau* | *23 Tachwedd 2022* | | Niwtral |
| AHNE yn cwrdd ag Aelodau Lleol/Cynghorwyr Tref a Chymuned/ Cefnogwyr AHNE | *2.3.22 rhaglen Llysfasi wedi'i chwblhau, anfon gwahoddiadau* | **2022-23 2.3.23** | | Niwtral |
| **Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2023 Parhad** | | | | |
| **Prosiect Presennol** | **Manylion/Cam Gweithredu** | **Amserlen** | **Amserlen Heb ddechrau neu'n broblem = Coch Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren Cwblhawyd = Gwyrdd** | **Cost -negatif neu +bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | ***Cam gweithredu wedi'i ddiweddaru*** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Partneriaeth yr AHNE** | | | | |
| Cyfarfodydd y Bartneriaeth AHNE Llawn | *3 x cyfarfod o Bartneriaeth yr AHNE wedi'u cwblhau* | **2022-23** | | Niwtral |
| Gweithgorau'r AHNE i gael eu hadolygu | *Y Bartneriaeth Arbennig wedi cyfarfod 3.2.23, yr adolygiad wedi'i ddechrau* | **2022-23** | | Niwtral |
| **Gweithgorau'r Bartneriaeth** | | | | |
| Cymeriad Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig | *Penodi David Williams* | **2022-23** | | +Positif |
| Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol | *O Dan Adolygiad* | **2022-23** | | +Positif |
| Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau | *O Dan Adolygiad Presenoldeb cryf 4 x cyfarfod wedi'u cwblhau yn cynnwys 2 x ymweliad safle* | ***2022-23*** | | +Positif |
| Twristiaeth | *O Dan Adolygiad* | **2022-23** | | +Positif |
| Hamdden ac Iechyd | *O Dan Adolygiad Cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd 1 x Cyfarfod* | **2022-23** | | +Positif |
| Datblygu Cynaliadwy | *Cyfarfod 3x i drafod cynigion* | **2022-23** | | +Positif |

| Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2023 Parhad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Manylion/Cam Gweithredu** | **Amserlen** | **Amserlen**<br>**Heb ddechrau neu'n broblem = Coch**<br>**Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren**<br>**Cwblhawyd = Gwyrdd** | **Cost -negatif neu +bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | ***Cam gweithredu wedi'i ddiweddaru*** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Prosiectau Arbennig AHNE** | | | | |
| SLSP | *Rhostiroedd Mawreddog a Choedwigoedd Gwyllt AHNE*<br>• *Gwaith Treftadaeth Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys*<br>• *Gwelliannau Dinas Bran*<br>• *Hygyrchedd Bryn Alyn*<br>*Mwynhau ein tirweddau mwy anghysbell 2022-25. Prosiectau:*<br>• *Y Rhostiroedd a thraddodiadau'r Tiroedd Comin*<br>• *Astudiaeth o Goetiroedd*<br>• *Plannu Pengwern/ Gwybodaeth Ddaearyddol Llangollen/ Gwarchodfa Natur Leol* | **2022-25** | | +Positif |
| Cydweithio â SLSP | *Mae'r AHNE yn rhan o dri phrosiect ar y cyd:*<br>• *Ffiniau Traddodiadol Gogledd Cymru*<br>• *Prosiect Awyr Dywyll Cymru Gyfan*<br>• *Prosiect Addysg Cymru Gyfan* | **2022-25** | | +Positif |
| Cronfa Datblygu Cynaliadwy | *2022-25 £100,000 y flwyddyn* | **2022-25** | | +Positif |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Prosiect Arbennig Llywodraeth Cymru | *2022-25 £300,000 wedi'i neilltuo i gynyddu lefelau staffio: Penodi Swyddogion Ffermio/ Ymgysylltu: Huw Morgan/Mari Jones* | **2022-25** | | +Positif |
| *Prosiectau CNC* | • *Adolygiad 10 Mlynedd o Bartneriaeth*<br>• *Cyfarfodydd Costau Cyffredinol*<br>• *Llawlyfr Newydd*<br>• *Dogfen Priffyrdd*<br>• *Diwygio Canllawiau Cynllunio Atodol*<br>• *Arwyddion Trothwy*<br>• *Pamffledi Newydd Moel Famau/ Loggerheads*<br>• *Adolygiad Alinio Parciau Cenedlaethol* | **2022-24** | | |
| Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy Prosiect Tirlunio | *Nesu at brosiectau yn eu blwyddyn olaf yn parhau* | 2018-23 | | +Positif |
| Newid yn yr Hinsawdd | *Penodi Graham Berry fel Swyddog Newid Hinsawdd ac Adfer Natur* | Mawrth 2023 | | Niwtral |

| Diweddariad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Mawrth 2023 Parhad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Presennol** | **Manylion/Cam Gweithredu** | **Amserlen** | **Amserlen** **Heb ddechrau neu'n broblem = Coch** **Ar waith, ar y trywydd iawn = Oren** **Cwblhawyd = Gwyrdd** | **Cost -negatif neu +bositif neu niwtral** |
| **Newydd** | ***Cam gweithredu wedi'i ddiweddaru*** | **Dyddiadau newydd** | | |
| **Sefydliadau Adran 85** | | | | |
| Llinellau Rhwydwaith SP | Shelf - yn ôl ar y trywydd iawn Cynlluniau eraill sy'n cael eu hystyried – Shelf, Llangar, Plas Newydd a Thŵr Dŵr Llangollen. Cynllun Tollborth posibl yr A5 (newid mewn perchnogion) | **2022-25** | Oren | Niwtral |
| Canllawiau Cynllunio Atodol Awyr Dywyll | Y 3 ALl wedi cytuno ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Awyr Dywyll. 2 o'r 3 ALl yn cymeradwyo CSyFf mis Mawrth | **2022-23** | Oren | +Positif |
| Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol a Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol | Swyddog AHNE yn cynrychioli 39 AHNE ar y Bwrdd Cenedlaethol. *4 x Cynllun Menter Gwella Tirwedd Dyffryn Morwinion a Mwynglawdd Corwen, datganiadau o ddiddordeb wedi eu cymeradwyo* ***Gwobr AHNE i'r Grid Cenedlaethol ar 23.3.23*** | 2022-23 | Oren | Niwtral |
| Cyfarfod Prif Swyddog NAAONB | Cyfarfodydd misol rheolaidd 1x Swyddog Arweiniol | **2022-23** | Oren | Niwtral |
| Gwaith Trin Carthion Pontcysyllte | *Wedi'i gwblhau yn rhannol Bydd Dŵr Cymru yn creu dôl a chlawdd ffiniol* | **2022-23** | Gwyrdd | +Positif |
| Severn Trent | *Cyfarfod gydag ST a Rheoleiddiwr Mehefin, archwilio cyfleoedd dal tir* | **2022-23** | Gwyrdd | +Positif |
| Canllawiau Priffyrdd ar gyfer Awdurdodau Lleol | *Llunio dogfen ar gyfer ymgynghoriad Anodd ymgysylltu* | **2021-22** | Coch | -Negatif |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag